

PUM CAM I ASESU RISG FEL MAE'R AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH (HSE) YN EU HAWGRYMU

Cam 1 – Edrychwch am y peryglon

- Edrychwch yn ofalus ar eich gweithle ac edrychwch am sefyllfaoedd neu weithgareddau gwaith a allai achosi niwed sylweddol.

Cam 2 – Penderfynwch pwy allai gael niwed a sut

- Hunangyflogedig
- Plant ar y fferm
- Gweithwyr
- Ymwelwyr
- Cymdogion
- Aelodau eraill o'r cyhoedd.

Cam 3 – Gwerthuswch y risgiau a phenderfynwch a yw'r rhagofalon presennol yn ddigonol neu a ddylech wneud rhagor.

- ● Ydy graddfa'r risg yn uchel, yn ganolig neu'n isel?
- ● Ydy hi'n bosibl cael gwared ar y perygl?
- ● Beth sy'n bosibl ei wneud fel bod y risg i iechyd a diogelwch mor isel ag sy'n bosibl os nad oes modd cael gwared ar y perygl?
- ● Pa fesurau rheoli – rhagofalon – y mae'n rhaid i chi eu rhoi yn eu lle i leihau'r risg?
- ● Ydych chi wedi rhoi digon o gyfarwyddyd a hyfforddiant i bersonél, fel eu bod nhw'n gwneud eu gwaith yn y ffordd fwyaf diogel?
- ● Ydy'r rhagofalon yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, yn cydymffurfio â safonau'r diwydiant, yn cynrychioli arferion da ac yn lleihau'r risg 'cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol'?
- ● Ai defnyddio Offer Amddiffyn Personol (PPE) yw'r mesur rheoli olaf, pan mae pob mesur rheoli arall wedi cael eu rhoi yn eu lle?
- ● Ydy'r Offer Amddiffyn Personol yn rhai o'r math cywir i'r perygl a'r gwaith sydd i'w wneud?

Cam 4 – Cofnodwch eich canfyddiadau

- Os oes gennych chi fwy na 5 gweithiwr, rhaid i chi gofnodii'r peryglon ac ysgrifennu eich casgliadau. Hefyd dylech chi roi gwybod i'ch gweithwyr am y canfyddiadau.
- Os oes gennych chi lai na 5 gweithiwr, does dim angen i chi nodi dim byd.

Cam 5 – Adolygwch eich gweithdrefnau

- Adolygwch yr asesiad yn rheolaidd, neu pan fydd peiriant neu broses newydd yn cael ei chyflwyno.

Risk assessment template

Company name:

Assessment carried out by:

Date of next review:

Date assessment was carried out:

What are the hazards?	Who might be harmed and how?	What are you already doing to control the risks?	What further action do you need to take to control the risks?	Who needs to carry out the action?	When is the action needed by?	Done

More information on managing risk: www.hse.gov.uk/simple-health-safety/risk/